# TAFLEN NEWYDDION CYMUNEDOL LLANDYFAELOG COMMUNITY NEWSLETTER



## CYFLWYNIAD / INTRODUCTION

Croeso i Rifyn Nadolig Daflen Newyddion Chwarterol Cymunedol Llandyfaelog.

Cyhoeddir y Daflen Newyddion trwy'r Wefan Gymunedol www.llandyfaelog.org.uk, ond os hoffech gael eich cynnwys ar y rhestr dosbarthiad trwy e-bost, cysylltwch ag Arfon Davies Clerc Cyngor Cymuned Llandyfaelog Llandyfaelog@btinternet.com

Er eich gwybodaeth mae'r rhannau Gymraeg o'r Cylchlythyr mewn coch â'r Saesneg yn glas.

Bydd y Clerc yn hapus i dderbyn eich sylwadau neu erthyglau ar gyfer y Rhifyn nesaf erbyn 1af Chwefror 2020.

Welcome to the Christmas Edition of the Llandyfaelog Quarterly Community Newsletter.

The Newsletter is published on the Community Website www.llandyfaelog.org.uk, however if you would like to be included on the email distribution list, please contact Arfon Davies, Llandyfaelog Community Council Clerk Llandyfaelog@btinternet.com

For ease of reference the parts of the Newsletter in Welsh are in red with the English in Blue.

The Clerk will be happy to receive your comments or articles for the next Edition by 1st February 2020.

## Cyngor Cymuned Llandyfaelog Community Council

| Dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor | Council Meeting Dates |
|---|---|
| 2 Ionawr 2020 7.30yh, Neuadd Llandyfaelog | 2 January 2020 7.30pm Llandyfaelog Hall |
| 6 Chwefror 7.30yh, Neuadd Llandyfaelog | 6 February 7.30pm, Llandyfaelog Hall |

## Neuadd Cymunedol Llandyfaelog Community Hall

## Noson Rasys / Races Evening

Cafwyd noswaith hwylus iawn nos Wener 22ain Tachwedd gyda Rasys yn y neuadd.

A very entertaining evening was had on Friday 22nd November during the Alternative Races.






Cafwyd dwy ras neilltuol ar gyfer Gadeiryddion Cymdeithasau Lleol.

Two special races were held for the Chairmen of Local Organisations.


FIRE EXIT





Diolch yn fawr iawn i Gethin Davies a Mel Thomas am ddarparu'r noson. Diolch hefyd i bawb gwnaed noddi ras neu archebu ceffyl.

A big thank you to Gethin Davies and Mel Thomas for providing the evening. Thanks also to everyone who sponsored the races or purchased a horse.

**<u>Seremoni Goleuadau Nadolig Llandyfaelog yn y Llew Coch</u>**
**<u>Llandyfaelog Christmas Lights Ceremony at the Red Lion</u>**

Bu noson hwylus iawn yng nghwmni Sïon Corn ar Nos Lun 2il Rhagfyr yn y Llew Coch Llandyfaelog.

Trevor Lloyd wnaeth perfformio Seremoni Goleuo'r Goeden Nadolig.

Hoffer y Pwyllgor estyn diolch i Fand Croesyceiliog, Cor Meibion Dyffryn Tywi a Phlant Ysgol y Fro am yr adloniant â'r gerddoriaeth. Diolch yn fawr i'r Llew Coch unwaith eto am ei chroeso. Diolch hefyd i bawb wnaeth helpu roi'r goeden yn ei le eto.



Stori flynyddol Sïon Corn / Father Christmas' Annual Story

A very entertaining evening was spent with Father Christmas on Monday 2nd December in the Red Lion, Llandyfaelog.

Trevor Lloyd performed the Christmas Tree Lighting Ceremony.

The Committee would like to thank Band Croesyceiliog, Cor Meibion Dyffryn Tywi and the Children of Ysgol y Fro for the entertainment and music. Thanks also to the Red Lion for their welcome once again. Thanks for all helpers for putting the tree in place again.



**Clwb 100 2019**

**Rhagfyr**

| | | |
|---|---|---|
| 1af | £100 | Rob Ashcroft |
| 2il | £50 | Anne, Woodbine |
| 3ydd | £40 | Arfon Davies |
| 4ydd | £30 | Roger Barber |
| 5ed | £20 | Bethan, Penhill |
| 6ed | £10 | Andrew, Penhill |

**Tachwedd**

1af £30 Andrew Richards

2il £20 Dilys Rhys

3ydd £10 Graham Rees

**October**

1af £30 Llandyfaelog Bowls Club

2il £20 Linda Owen

3ydd £10 Gillian Barber

**Medi**

1af £30 Mike Phillips

2il £20 Sarah Withers

3ydd £10 Meinir Davies

**100 Club 2019**

**December**

1st £100 Rob Ashcroft

2nd £50 Anne, Woodbine

3rd £40 Arfon Davies

4th £30 Roger Barber

5th £20 Bethan, Penhill

6th £10 Andrew, Penhill

**November**

1st £30 Andrew Richards

2nd £20 Dilys Rhys

3rd £10 Graham Rees

**October**

1st £30 Llandyfaelog Bowls Club

2nd £20 Linda Owen

3rd £10 Gillian Barber

**September**

1st £30 Mike Phillips

2nd £20 Sarah Withers

3rd £10 Meinir Davies

## Noson Cwis / Quiz Night

Bydd noson gwis yn cael ei chynnal yn y Llew Goch i godi arian ar gyfer Uned Cemotherapi Ysbyty Glangwili ddydd Gwener 10fed Ionawr 2020 rhwng 7.30pm - 8.00pm. 4 o bobl i dîm. Cysylltwch â Shan a Graham Rees i gael mwy o fanylion.

A quiz evening will be held at the Red Lion to raise funds for the Glangwili Hospital Chemotherapy Unit on Friday 10th January 2020 from 7.30pm – 8.00pm. 4 people to a team. Please contact Shan and Graham Rees for more details.

## Pwyllgor Apêl Eisteddfod Yr Urdd 2021, Llanishmael

Bu'r Hydref yn dymor prysur i Bwyllgor Apêl Yr Urdd 2021 yn lleol. Ar 4ydd Hydref cynhaliwyd Noson Bingo yng Nghlwb Hwylio Afon Tywi, Glanyfferi, o dan nawdd Cwmni Adeiladu MW Jones. Diolch yn fawr iawn iddyn nhw am eu haelioni. Mewn noson hwylus dros ben, codwyd £523 i goffrau'r apêl. Diolch o galon i bawb fu wrthi'n trefnu.

Ar nos Wener 1af Tachwedd roedd Neuadd Llandyfaelog dan ei sang mewn Noson Pwdinau a Stondinau. Trefnwyd y cyfan gan Glwb Gwawr Maelog er mwyn codi

arian tuag at yr apêl. Daeth nifer dda o stondinwyr lleol i'r neuadd i arddangos a gwerthu nwyddau, gan roi cyfle i bawb gael dechre da ar y siopa 'Dolig! Diolch i *Pethau Olyv, Harddwch Gwenda Owen, Troi CLai, Calon Mam,* a *Llawn Cariad* am eu cefnogaeth.

Gwerthwyd llond bwrdd o ddanteithion a phwdinau melys a wnaed gan aelodau Clwb Gwawr, a chodwyd swm sylweddol o £788 tuag at Apêl yr Urdd yn lleol. Joiodd pawb y Prosecco, y cymdeithasu, a'r pwdinau! Diolch i Llinos Jones, Cadeirydd Clwb Gwawr am drefnu'r noson, ac i'r aelodau am eu cefnogaeth a'u cymorth gyda'r trefniadau.

Yn dilyn yr holl weithgaredd mae cyfrif Pwyllgor Apêl Llanishmael wedi codi i £2,102. Y digwyddiad nesaf i godi arian yw Noson Gyri yn Neuadd Y Llew Coch, Llandyfaelog, ar 31ain Ionawr. Dewch i gefnogi – bydd croeso cynnes i bawb!

Mae nwyddau Eisteddfod yr Urdd 2021 bellach ar werth – beth am brynu crys T, Hwdi neu Zwdi fel anrheg Nadolig? Maent ar gael i oedolion a phlant, ac mae dewis o liwiau ar gael. Cysylltwch â Lowri Morris (lowrimorris@urdd.org) os hoffech brynu nwyddau – neu galwch draw i Neuadd Llandyfaelog ar 7fed Rhagfyr, lle byddwn yn gwerthu'r nwyddau yn ystod Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog.

Hoffai aelodau'r Pwyllgor ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.

## Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog 2019.

Cynhaliwyd eisteddfod lwyddiannus iawn yn Neuadd Llandyfaelog ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 7fed. Y beirniaid eleni oedd :- Cerdd – Davinia Harries Davies, Bancffosfelen; Llefaru – Elin Williams, Cwmann: Llên – Y Prifardd Idris Reynolds, Brynhoffnant; Celf – Gareth Morgan, Cwmffrwd.

Bu Geraint Rees, Idole yn cyfeilio ar gyfer y cystadlaethau lleol a Jonathan Morgan, Y Tymbl ar gyfer y cystadlaethau agored.

Llywyddion yr eisteddfod eleni oedd Janet Knott, Banc-y-capel yn y prynhawn a Ronald Thomas, Llandyfaelog yn yr hwyr, ill dau â chysylltiad agos iawn gyda bro'r eisteddfod ac yn weithgar iawn ynddi.

Enillwyd Cadair yr Eisteddfod gan Gareth Williams, Llannon, Llanelli gyda cherdd ar y testun "Tonnau". Yr oedd y gadair hardd yn rhoddedig gan Mr Ron Jones a Mrs Kim Lloyd Jones a'r teulu, Fferm-y-coed, Glan-y-fferi. Enillwyd Tlws yr Ifanc gan Ianto Jones, Cribyn, Llanbedr Pont Steffan. Roedd y tlws a'r wobr ariannol yn rhoddedig gan Huw John, Peniel.

Cyflwynwyd Cwpan Coffa John a Nan Anderson, Trelimsey i Erin Gibbon, Mynydd-y-garreg am fod y cystadleuydd lleol o dan 11 oed sydd yn dangos yr addewid fwyaf. Cyflwynwyd Ysgoloriaethau Dr. Ron a Mrs. Betty Rees i'r cystadleuydd gorau yn lleol o dan 16 oed i Erin Gibbon, Mynydd-y-garreg (cerddoriaeth) ac i Lois Dafydd, Llangynnwr a Gruffudd Roberts, Cydweli (llefaru). Cyflwynwyd cwpan her i'r ysgol

leol uchaf ei marciau i Ysgol Llangynnwr a chyflwynwyd cwpan her am lwyfannu eitem gan fudiadau lleol i gapel Penygraig.

Mae aelodau'r pwyllgor yn gwerthfawrogi pob cyfraniad a chefnogaeth tuag at lwyddiant yr eisteddfod.  Dyma restr o'r buddugol ymhob cystadleuaeth.

**CERDD** (lleol)
Unawd Bl. 1 a 2 – 1. Llian Jones, 2. Paige Thomas, 3. Beca Eluned; Unawd Bl. 3 a 4 – 1. Harri Jones, 2. Peyton Hayhurst, 3. Poppy James; Unawd Bl. 5 a 6 – 1. Erin Gibbon, 2. Alysha Thomas, 3. Alys Mitchell; Unawd offeryn cerdd ysgolion cynradd – 1. Lois Dafydd, 2. Haf Jones; Parti unsain dan 16 – 1. Ysgol y Fro, 2. Glan-y-fferi, 3. Llangynnwr 1 a 2 (cydradd); Unawd Bl. 7-11 – 1. Llywelyn Owen; Unawd offeryn cerdd – 1. Llywelyn Owen.

**LLEFARU** (lleol)
Llefaru Bl. 1 a 2 – 1. Ioan Jones, 2. Gwenllian Jones, 3. Gwenno Roberts; Llefaru Bl. 3 a 4 – 1. Gruffudd Roberts, 2. Harri Lloyd, 3. Gwenllian Jones; Llefaru Bl. 5 a 6 – 1. Lois Dafydd, 2. Alys Mitchell, 3. Lisa Gibbard.

**CELF A THECHNOLEG** (lleol)
Celf dan 5 oed – 1. Caian Morris, Cywion Bach, 2. Bobby Williams-Holder, Ysgol Glan-y-fferi, 3. Louie Reynolds, Cywion Bach. Celf Blwyddyn 1 a 2 – 1. Haulwen Wood, Ysgol Gwenllian, 2. – Poppy Lee, Ysgol y Fro, 3. Gruffydd Knowles, Ysgol y Fro. Celf Blwyddyn 3 a 4 – 1. Zane Afzal-Owen, Ysgol Glan-y-fferi, 2. – Honey Davis, Ysgol Llangynnwr, 3. - Griff Beynon, Ysgol Glan-y-fferi. Celf Blwyddyn 5 a 6 – 1. Evie Holland, Ysgol Gwenllian, 2. – Seren Wood, Ysgol Gwenllian, 3. – Arwen Kirton-Hutchins, Ysgol Glan-y-Fferi. Technoleg Gwybodaeth Bl. 1-6 – 1. Kian Williams, Ysgol Llangynnwr, 2. – Cerys Johnson, Ysgol Llangynnwr, 3. – Grace Frazer Jones, Ysgol Llangynnwr.

**CERDD** (agored)
Unawd Bl. 1 a 2 neu iau – Iwan Thomas; Unawd Bl. 3 a 4 – Cadi James; Unawd Bl. 5 a 6 – Cari Seymour; Unaw Unawd Alaw Werin dan 19 – Elin Fflur Jones; Unawd Bl. 7, 8 a 9 – Erin Morgan; Unawd Bl. 10 ac o dan 19 oed – Martha Harries; Unawd sioe gerdd dan 30 oed – Martha Harries; Unawd dan 30 – Sioned Howells; Emyn dan 50 – Elin Fflur Jones; Parti/Côr mudiadau lleol – Capel Penygraig; Emyn dros 50 – Geraint Rees; Her unawd – Sioned Howells; Cystadleuaeth Gorawl Eisteddfodau Cymru – Côr Hafodwenog; Cenwch i'm yr Hen Ganiadau – Elin Fflur Jones.

**LLEFARU** (agored)
Llefaru Bl. 1 a 2 neu iau – Iwan Thomas; Llefaru Bl. 3 a 4 – Taliesin Bryant; Llefaru Bl. 7, 8 a 9 – Seren Weston; Darllen darn o'r Ysgrythur ar y pryd, dros 19 – Sioned Howells; Her adroddiad dan 30oed – Sioned Howells; Her Adroddiad – Sioned Howells.

**LLENYDDIAETH**
Y Gadair – Gareth Williams, Llanon, Llanelli; Tlws yr Ifanc – Ianto Jones, Cribyn, Llanbedr Pont Steffan. Englyn – Iwan Rhys a Manon Awst, Caernarfon; Gorffen Limrig – Olga Gravell, Pontiets; Blwyddyn 7-9 llunio blog – 1. Mari Wynne, Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin, Caerfyrddin, 2. Leia Vobe, Ysgol Bro Teifi, Llandysul,

3. Saoirse Downey, Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe, Abertawe. Blwyddyn 10-11 llunio blog - 1. Rebecca Rees, Ysgol Bro Teifi, Llandysul, 2. Cerys Evans, Ysgol Bro Teifi, Llandysul, 3. Mared Evans, Ysgol Bro Teifi, Llandysul. Bl. 1-6 ysgolion cynradd lleol - 1. – Carrie Davies, Ysgol Llangynnwr, 2. – Grace Frazer Jones, Ysgol Llangynnwr, 3. – Cydradd, Macsen Davies, Ysgol Llangynnwr, Mali Griffiths, Ysgol Llangynnwr ac Emilie Jones, Ysgol Llangynnwr





**Lluniau eraill**
Rhai o enillwyr yr adran leol yn yr eisteddfod. Ewch i tudalen yr Eisiteddfod ar y wefan Cymunedol www.llandyfaelog.org.uk – Cymuned – Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog.

## Hanes Cymunedol
## Community History

Gweler isod rhai eitemau hanes diddorol ein cymuned, gweler y wefan gymunedol am ragor o wybodaeth.

### Pistyll

Cafwyd hyd i ffynnon iachaol ym Mhistyll, sef ffynnon o ddŵr gloyw, oedd yn werthfawr iawn o ran gwella afiechydon y llygad.

### Bancycapel

Mae Bancycapel yn cael ei enw o hen gapel ar glawdd o dir uchel sef Mynydd y Cyfor, ar ben deheuol y bryn ger y groesffordd ym mhentrefan Bancycapel. Ar y

clawdd hwn mae tomenni o dir yn aros sy'n nodi safle Capel Cynheiddon. Roedd y capel yn sefyll yn ystod y 17eg ganrif, ond erbyn hyn mae fwy neu lai wedi diflannu. Soniwyd am ei sylfeini yn De situ Brecheniauc y 12fed ganrif, dogfen sy'n trafod safleoedd claddu hynafol Cymreig.

## Capel Bancycapel

Cyn yr adeiladwyd y Capel ym 1834, cynhaliodd y Methodistiaid lleol eu cyfarfodydd ym Mhenymaes, Bwlchygwynt, Fforest ac Iscwm ymhlith eraill. Daeth y pulpud cyntaf yn yr eglwys o Gapel Heol y Dŵr, Caerfyrddin. Roedd bwriad i ychwanegu cloc i'r capel, ond cyn i'r adeilad gael ei gwblhau cafodd ei symud i Eglwys Llangain. Roedd y tu mewn yn syml iawn gyda phedair sedd yn y blaen ac ar bob ochr a meinciau yn y canol; gwnaed rhai adnewyddiadau ym 1869..

Please see below some interesting historical items from our Community, please see the Community Website for more information

## Pistyll

A healing well was found at Pistyll, this well a spring of limpid water, greatly valued for curing diseases of the eye.

## Bancycapel

Bancycapel takes its name from an old chapel that stood on a bank of high ground Mynydd y Cyfor, at the southern end of the hill near the crossroads in the hamlet of Bancycapel. On this bank mounds of earth remain which mark the site of Capel Cynheiddon. The chapel was standing during the C17th, but has now practically disappeared. Its foundations were mentioned in the C12th De situ Brecheniauc, a document detailing ancient Welsh burial grounds.

## Capel Bancycapel

Before the Chapel was built in 1834, local Methodists held their meetings at Penymaes, Bwlchygwynt, Fforest and Iscwm among others. The first pulpit in the church came from Water Street Chapel, Carmarthen. It was intended to add a clock to the chapel however before the building was completed it was removed to Llangain Church. The interior was very simple with four seats in front and on each side with benches in the centre; some renovations were made in 1869.